Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2020 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2171A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel rhan o waith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni chymerir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o'r Cod yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwilio cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 13

Atodiad 2 – ffi archwilio 15

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 16

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2020 sef gwaith hwnnw a wneuthum er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd, yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Rwyf wedi nodi fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwilio cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

3 Gwnaethpwyd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff cyhoeddus yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. O ystyried ei effaith, ail-luniais y rhaglenni gwaith a gynlluniwyd gennyf trwy ystyried y ffordd orau o sicrhau pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Ystyriais effaith yr argyfwng presennol ar wytnwch a siâp gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol, a'r nod oedd sicrhau nad oedd fy ngwaith yn amharu ar gyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ar yr un pryd ei fod yn parhau i gefnogi craffu a dysgu. Ataliwyd yr holl waith archwilio ar y safle wrth i ni barhau i weithio ac ymgysylltu o bell lle bo hynny'n bosibl trwy ddefnyddio technoleg. Yn anochel, cafodd hyn effaith ar gyflawni rhywfaint o fy ngwaith archwilio arfaethedig ond mae hefyd wedi sbarduno newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

4 Nid oedd cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon heb ei heriau, nid yn unig o ran sut a ble y gwnaethom y gwaith, ond hefyd o ran ystyried ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol a ddeilliodd yn uniongyrchol o'r pandemig. Mae'r llwyddiant wrth gyflawni yn unol â'r amserlen ddiwygiedig yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd i gofleidio a galluogi ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg ac yn ystyriol o'r llu o faterion sy'n codi.

5 Ar ddechrau'r pandemig, ataliais gyhoeddi rhai adroddiadau archwilio perfformiad a oedd bron â chael eu cwblhau, gan adlewyrchu gallu cyrff archwiliedig i gefnogi gwaith maes a oedd yn weddill a chyfrannu at glirio allbynnau archwilio drafft. Rwyf hefyd wedi addasu ffocws a dull rhai adolygiadau eraill a oedd wedi'u cynllunio i sicrhau eu perthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng. Mae ffrydiau gwaith newydd wedi'u cyflwyno, fel fy adolygiad o'r rhaglen Prawf, Olrhain a

Diogelu, ac mae fy nhimau archwilio lleol wedi cyfrannu at fy ngwaith dysgu COVID-19 ehangach.

6 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau manylach i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1)**. Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws gwaith a gynlluniwyd sy'n cael ei ail-gwmpasu ar hyn o bryd.

7 Cyflwyna **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am gostau cynnal fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2020.

8 Noda **Atodiad 3** y risgiau archwilio ariannol a amlygir yn fy Nghynllun Archwilio 2020 a sut yr aed i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

9 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno bod yr adroddiad hwn yn ffeithiol gywir. Fe'i cyflwynwyd gennym i'r Pwyllgor Archwilio ar 14 Rhagfyr 2020. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i wneud trefniadau i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

10 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod fy ngwaith archwilio.

# Negeseuon allweddol

## Archwilio cyfrifon

11 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad).

12 Fodd bynnag, gosodais naratif Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliad yn y cyfrifon yn ymwneud â Chyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, gan ei chyfarwyddo i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG a gafwyd gan gyrff GIG Cymru mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019-20. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi datgelu bodolaeth rhwymedigaeth amodol ar 31 Mawrth 2020. Nid wyf wedi rhoi amod ar fy marn archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

13 Deuthum â dau fater pwysig i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio. Roedd y materion yn ymwneud â lefel uchel hen groniadau'r Bwrdd Iechyd (symiau sy'n ddyledus i drydydd partïon), a manylion annigonol ar gyfer rhai asedau a gofnodwyd yng nghofrestr asedau sefydlog y Bwrdd Iechyd.

14 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd sefyllfa ariannol wedi'i mantoli ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, ac nid oedd ganddo unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol eraill nad oeddent yn unol ag awdurdodau nac na

ddefnyddiwyd at y dibenion a fwriadwyd, felly cyhoeddais farn ddiamod ynghylch rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2019-20 y Bwrdd Iechyd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- cynhaliodd y Bwrdd Iechyd lywodraethu da yn gyffredinol, ond gallai goruchwyliaeth strategol metrigau a lles y gweithlu fod wedi cael ei gryfhau yn ystod camau cynnar y pandemig ac mae'r ymateb i COVID-19 wedi arafu cynnydd wrth weithredu trefniadau rheoli risg newydd;
- cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2019-20 ac mae wedi parhau i ddangos rheolaethau ariannol effeithiol ond mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ymateb i COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y sefyllfa ariannol;
- cafodd cynlluniau gweithredol eu llywio gan fodelu galw a gallu cadarn ac mae ymrwymiad clir i les staff ac addasu i'r ffyrdd newydd o weithio gyda datblygu trefniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i wrth-dwyll, mae ganddo drefniadau addas i gefnogi atal twyll a chanfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol pan fydd twyll yn digwydd; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn fy adolygiadau blaenorol o ystafelloedd llawdriniaeth, ond gellid gwneud gwelliannau pellach mewn perthynas â defnyddio data effeithlonrwydd ystafelloedd llawdriniaeth a safoni prosesau cyn llawdriniaeth ar draws y Bwrdd Iechyd.

16 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwilio cyfrifon

17 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20. Yn y datganiadau hyn y mae’r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian parod. Mae paratoi'r datganiadau yn elfen hanfodol o ran dangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

18 Roedd fy Nghynllun Archwilio 2020 yn nodi’r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2019-20 y Bwrdd Iechyd. Mae **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

19 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi datganiadau ariannol 2019-20

20 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a’u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad). Fodd bynnag, gosodais naratif Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon yn ymwneud â Chyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, gan ei chyfarwyddo i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG a gafwyd gan gyrff GIG Cymru mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019-20. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi datgelu bodolaeth rhwymedigaeth amodol ar 31 Mawrth 2020. Nid wyf wedi rhoi amod ar fy marn archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

21 Deuthum â dau fater pwysig i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio, fel y crynhoir isod:

- mae gan y Bwrdd Iechyd lefel uchel o hen groniadau (symiau sy'n ddyledus i drydydd partïon), a oedd â risg uchel o fod yn annilys. Cynhaliais brofion archwilio estynedig a lle bo angen, dileodd y Bwrdd Iechyd groniadau annilys a gadarnhawyd. Mae angen gwaith pellach yn y maes hwn, y mae'r Bwrdd Iechyd a minnau yn ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2020-21.
- rwy'n ystyried bod rhai cofnodion yng nghofrestr asedau sefydlog y Bwrdd Iechyd yn annigonol oherwydd nad oes ganddynt wybodaeth ddigonol i nodi asedau penodol. Er nad oedd hwn yn fater o bwys ar gyfer 2019-20, roedd y diffyg gwybodaeth ar gyfer rhai asedau yn fy atal rhag cadarnhau eu

bodolaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei gofnodion asedau sefydlog lle bo angen.

22 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Adroddiad Atebolrwydd drafft a'i Ddatganiadau Ariannol erbyn dyddiad cau Llywodraeth Cymru sef 22 Mai, ac roedd fy archwiliad ac ardystiad hefyd yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru.

23 Cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon, mae'n rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Adroddodd fy nhîm archwilio y materion hyn i'r Bwrdd Iechyd ar 29 Mehefin 2020. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|
| Camddatganiadau na chywirwyd | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau arwyddocaol na chywirwyd. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Adroddais am y pum camddatganiad mwyaf arwyddocaol a gywirwyd. Roeddent yn ymwneud â dosbarthiadau cyfrifyddu a datgeliadau. |
| Materion arwyddocaol eraill | Adroddais ar ddau faes i'w gwella, ar y materion a nodir ym mharagraff 21, a ystyriodd y Pwyllgor Archwilio ar 19 Hydref 2020. |

24 Cynhaliais, hefyd, adolygiad o ffurflen Gyfrifon y Llywodraeth gyfan. Penderfynais fod gwybodaeth gyfunol y parti arall yn y cytundeb yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2020 ac fe baratowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

25 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol ar y gweill. Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar 2 Tachwedd 2020 ac mae disgwyl i mi adrodd ar fy nghanfyddiadau i aelodau ymddiriedolwyr ar 28 Ionawr 2021.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

26 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd sefyllfa ariannol wedi'i mantoli ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, ac nid oedd ganddo unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol eraill nad oeddent yn unol ag awdurdodau nac na ddefnyddiwyd

at y dibenion a fwriadwyd, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynghylch rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2019-20 y Bwrdd Iechyd.

27 Mae'n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Mae'n rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i dderbyn yr incwm ac i ysgwyddo'r gwariant sydd ganddo. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn cynnal profion i sicrhau nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn nac i'w hysgwyddo.

28 Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn cyflawni sefyllfa ariannol wedi'i mantoli, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi roi amod ar fy marn ynghylch rheoleidd-dra. Mae **Arddangosion 2 a 3** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyraniadau refeniw a chyfalaf.

**Arddangosyn 2: perfformiad ariannol yn erbyn y dyraniad adnoddau refeniw (£ '000)**

| | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Treuliau gweithredu | 644,435 | 686,502 | 1,066,192 | 2,397,129 |
| Dyraniad adnoddau refeniw | 644,458 | 686,518 | 1,067,075 | 2,398,051 |
| Tan (gôr) wariant yn erbyn dyraniad | 23 | 16 | 883 | 922 |

**Arddangosyn 3: perfformiad ariannol yn erbyn y dyraniad adnoddau refeniw (£ '000)**

| | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau cyfalaf | 34,894 | 24,168 | 38,328 | 97,390 |
| Dyraniad adnoddau cyfalaf | 34,902 | 24,178 | 38,332 | 97,432 |
| Tan (gôr) wariant yn erbyn dyraniad | 8 | 10 | 24 | 42 |

Ffynhonnell: datganiadau ariannol 2019-20

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

29 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth

ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad y Bwrdd Iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau gwrth-dwyll y Bwrdd Iechyd: a
- chynnal adolygiad dilynol o gynnydd yn erbyn argymhellion o fewn Ystafelloedd Llawdriniaeth.

30 Nodir fy nghasgliadau sy’n seiliedig ar y gwaith hwn isod.

## Asesiad strwythuredig

31 Dyluniwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig. Fe wnes i sicrhau dull pragmatig addas a pherthnasol i'm helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, gan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt ymateb i gam nesaf y pandemig COVID-19. Roedd prif ffocws y gwaith ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Talodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol lle'r oedd y rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol, yn enwedig o dan yr amgylchiadau presennol.

32 Roedd yr asesiad strwythuredig yn grwpio ein canfyddiadau o dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio gweithredol: i gefnogi'r ymateb parhaus i'r pandemig gan gydbwyso hynny yn erbyn darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

### Trefniadau llywodraethu

33 Roedd fy ngwaith yn ystyried gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn wrth orfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a gyflwynwyd gan y pandemig. Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn cynnal llywodraethu da yn gyffredinol, ond gallai goruchwyliaeth strategol metrigau a lles y gweithlu fod wedi cael ei gryfhau yn ystod camau cynnar y pandemig ac mae'r ymateb i COVID-19 wedi arafu cynnydd wrth weithredu trefniadau rheoli risg newydd.

34 Canfûm fod y Bwrdd Iechyd, yn gyffredinol, wedi cynnal trefniadau llywodraethu da yn ystod y pandemig. Cynorthwywyd hyn gan Fwrdd sefydlog a gwydn, a’r gallu i addasu trefniadau llywodraethu yn gyflym i gefnogi gwneud penderfyniadau ystwyth yn ystod y pandemig. Bu ymrwymiad i gynnal busnes mewn ffordd agored a thryloyw ac i ddefnyddio dysgu i helpu i lunio trefniadau yn y dyfodol.

35 Er y datblygwyd ymhellach elfennau o system rheoli risg y Bwrdd Iechyd, mae'r angen i ymateb i'r pandemig wrth reswm wedi arafu cynnydd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal systemau i oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn ystod y pandemig ac i fynd i'r afael ag argymhellion archwiliadau ac adolygiadau allanol.

## Rheoli adnoddau ariannol

36 Ystyriais berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2019-20 ac wedi parhau i ddangos rheolaethau ariannol effeithiol ond mae costau sy'n gysylltiedig ag ymateb i COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y sefyllfa ariannol.

37 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwrdd â'i ofyniad statudol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod tair blynedd treigl ers cyflwyno hynny gyntaf. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2019-20 hefyd ond mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ymateb i COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sefyllfa ariannol. Rhagwelwyd diffyg o £58 miliwn ar gyfer 2020-21 ym Mis 4, fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r gorwariant hwn. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rheolaethau ariannol cadarn mewn perthynas â COVID-19, ond bu peth oedi wrth gofnodi penderfyniadau ariannol allweddol.

## Cynllunio Gweithredol

38 Ystyriodd fy ngwaith gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth ddatblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg fy ngwaith, roedd y ffocws ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau arferol a rwtîn pan fydd yn ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny. Canfu fy ngwaith fod cynlluniau gweithredol yn cael eu llywio gan fodelu galw a gallu cadarn ac mae ymrwymiad clir i les staff ac addasu i'r ffyrdd newydd o weithio gyda datblygu trefniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd.

39 Datblygwyd cynlluniau gweithredol yn gyflym gyda'r Bwrdd, a'u llywio gan fodelu galw a gallu cadarn. Mae cynlluniau'n dangos ymrwymiad i les staff ac addasu i ffyrdd newydd o weithio. Diweddarwyd y Bwrdd ar gyflawniadau allweddol yn ystod chwarter 1 ac mae'n parhau i ddatblygu prosesau ar gyfer monitro gweithrediad, canlyniadau ac effaith. Fodd bynnag, ar anterth y pandemig, roedd y wybodaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd ar fetrigau gweithlu a diogelwch staff yn gyfyngedig fel y nodwyd yn gynharach.

## Effeithiolrwydd trefniadau gwrth-dwyll

40 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddais drosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn disgrifio trefniadau gwrth-dwyll yn sector cyhoeddus Cymru. Yna cynhaliodd fy nhîm archwiliad manylach ar draws ystod o gyrff sector cyhoeddus Cymru i archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau gwrth-dwyll yn ymarferol ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella. Ym mis Gorffennaf 2020 cyhoeddais Gwella ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru yn nodi crynodeb o fy nghanfyddiadau a saith 'thema allweddol' y mae angen i bob corff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt wrth wella perfformiad i fynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol.

41 Er nad oedd y gwaith hwn wedi'i gynnwys yng nghynllun archwilio'r Bwrdd Iechyd, cyhoeddais adroddiad ychwanegol hefyd yn nodi trefniadau penodol y Bwrdd Iechyd ar gyfer atal a chanfod twyll. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i wrth-dwyll, bod ganddo drefniadau addas i gefnogi atal twyll a chanfod twyll a'i fod yn gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd.

## Dilyniant i Ystafelloedd Llawdriniaeth

42 Ystyriodd fy ngwaith y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ein gwaith dilynol yn 2014-15 ar Ystafelloedd Llawdriniaeth. Roedd y gwaith dilynol hefyd yn cynnwys adolygiad o argymhellion a wnaed yn flaenorol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg mewn perthynas â gwasanaethau i Ben-y-bont ar Ogwr, o ystyried trosglwyddo gwasanaethau gofal iechyd i'r bobl i Ben-y-bont ar Ogwr i'r Bwrdd Iechyd ar 1 Ebrill 2019. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr adolygiad blaenorol, ond gellid gwneud gwelliannau pellach mewn perthynas â defnyddio data effeithlonrwydd ystafelloedd llawdriniaeth a safoni prosesau cyn llawdriniaeth ar draws y Bwrdd Iechyd.

43 Ers fy ngwaith blaenorol, canfûm y bu gwelliannau sylweddol yn y defnydd o sesiynau briffio cyn-restr ac ôl-restr a bod cynllunio sesiynau ystafelloedd llawdriniaeth a rhestrau wedi gwella ar ôl penodi rheolwyr amserlennu.

44 Fodd bynnag, amlygodd fy ngwaith yr angen am gamau pellach i fynd i'r afael â'r modelau anghyson o asesu cyn llawdriniaeth ar draws safleoedd yr ysbytai. Yn ogystal, er bod gwybodaeth am berfformiad ystafelloedd llawdriniaeth ar gael, roedd diffyg ffocws a chraffu ar effeithlonrwydd, cynhyrchiant a defnydd ystafelloedd llawdriniaeth ar draws y Bwrdd Iechyd.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 4: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a ddosbarthwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2020.

| Adroddiad | Mis |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2020 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2020 |
| Adendwm i'r Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Medi 2020 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Dilyniant i Ystafelloedd Llawdriniaeth | Rhagfyr 2020 |
| Asesiad Strwythuredig 2020 | Hydref 2020 |
| Effeithiolrwydd trefniadau gwrth-dwyll | Awst 2020 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2020 | Chwefror 2020 |

**Arddangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad sy'n mynd rhagddo o hyd**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| **Adroddiad** | **Amcangyfrif o'r mis cwblhau** |
|---|---|
| Orthopedig | Rhagfyr 2020 |
| Adolygiad o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Rhagfyr 2020 |
| Profi, Olrhain a Diogelu | Rhagfyr 2020 |
| Gofal heb ei drefnu | Cam 1 – Chwefror 2021<br>Gwaith pellach i'w gynnwys fel rhan o gynllun 2021 |
| Dilyniant Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd | Chwefror 2021 |
| Staff Asiantaeth Meddygol | Mawrth 2021 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2020 yn nodi ffi archwilio arfaethedig o £402,681 (heb gynnwys TAW). Rwy'n disgwyl i'r ffi wirioneddol fod yn uwch na fy amcangyfrif. Mae hyn yn bennaf oherwydd:

- gwaith archwilio estynedig a wneuthum mewn perthynas â hen groniadau'r Bwrdd Iechyd; ac
- oherwydd trosglwyddiad Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 1 Ebrill 2019, y gofyniad i gynnal 'archwiliad llawn', yn hytrach nag 'archwiliad cyfyngedig', o ddatganiadau ariannol 2019-20 y cronfeydd elusennol.

Rwy'n disgwyl gallu cadarnhau fy ffi wirioneddol ym mis Ionawr 2021, a byddaf yn adrodd hynny i'r Pwyllgor Archwilio yn fy Nghynllun Archwilio 2021.

# Atodiad 3:

## Risgiau archwilio ariannol

**Arddangosyn 6: risgiau archwilio ariannol**

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2020 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2019-20 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg bod rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i natur anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].<br>Mae'r pwysau ariannol ar y Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr ddangos tuedd er mwyn cyflawni eu dyletswyddau ariannol statudol. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• cynnal profion priodoldeb yr wybodaeth yn y dyddlyfrau a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am duedd; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol i unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Adolygais nifer o'r amcangyfrifon cyfrifyddu a sampl o drafodiadau a oedd yn cynnwys gwybodaeth yn y dyddlyfrau. Roedd canfyddiadau fy archwiliad yn sylweddol foddhaol, er fel y nodais yn yr adroddiad hwn, adroddais i'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â lefel uchel croniadau'r Bwrdd Iechyd. Ymgymerais â gwaith archwilio estynedig mewn perthynas â 2019-20. Yn ddiweddar, rwyf hefyd wedi cychwyn profion archwilio estynedig mewn perthynas â 2020-21. |
| Ar 1 Ebrill 2019 cymerodd y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb am wasanaethau gofal iechyd i bobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Fel rhan o'r trosglwyddo, trosglwyddwyd asedau a rhwymedigaethau sylweddol i'r Bwrdd | Bydd fy nhimau archwilio yn profi'r balansau a drosglwyddwyd i sefydlu a yw'r ddau Fwrdd Iechyd wedi cytuno'n ffurfiol ac wedi 'cymeradwyo' eu trosglwyddiad.<br>Bydd fy nhîm archwilio hefyd yn profi a yw'r balansau wedi'u | Profais y cyfrifyddu ar gyfer trosglwyddo a deuthum i'r casgliad ei fod yn sylweddol wir ac yn deg. |

| | | |
|---|---|---|
| Iechyd. Ar ôl y trosglwyddo, fel mesur dros dro mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) newydd wedi gweinyddu, ar ran y Bwrdd Iechyd, drafodiadau 2019-20 sy'n gysylltiedig â'r balansau a drosglwyddwyd.<br>Mae risg bod yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd a drosglwyddwyd ar 1 Ebrill 2019, a'r trafodiadau cysylltiedig yr ymdriniwyd â hwy gan BIBPA yn ystod 2019-20, yn anghywir. | cofnodi'n gywir yng nghofnodion cyfrifo'r Bwrdd Iechyd. | |
| O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, peidiodd byrddau iechyd â chael terfynau adnoddau blynyddol o 1 Ebrill 2014. Yn lle hynny, symudodd byrddau iechyd i reoli eu hadnoddau o fewn terfynau a gymeradwywyd dros gyfnod treigl o dair blynedd ar gyfer refeniw a chyfalaf, gyda'r cyfnod tair blynedd cyntaf felly'n rhedeg tan 31 Mawrth 2017.<br>Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn gweithredu o fewn ei derfynau refeniw a chyfalaf am y tair blynedd hyd at 31 | Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20 a'r sefyllfa gronnus tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2020.<br>Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried effaith unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro perthnasol dros y tair blynedd hynny.<br>Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyrraedd y terfynau adnoddau tair blynedd ar gyfer refeniw a/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl rhoi amod ar fy marn rheoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol 2019-20. Byddwn hefyd yn disgwyl gosod adroddiad sylweddol ar y | Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, cadarnhaodd fy archwiliad fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyraniadau adnoddau tair blynedd ar gyfer refeniw a chyfalaf. |

| | | |
|---|---|---|
| Mawrth 2020; mae risg na fydd yn gwneud hynny, yn enwedig ar gyfer y terfyn refeniw.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwargedion bach iawn ymhob un o'r tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2019. Felly, mae risg y gall y Bwrdd Iechyd weithredu diffyg yn erbyn un neu'r ddau o'i derfynau adnoddau am y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2020.<br>O ran y risg hon, mae fy nhîm archwilio wedi nodi y gallai sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20 fod dan straen cynyddol oherwydd ei gyfrifoldeb newydd (ers 1 Ebrill 2019) am wasanaethau gofal iechyd i bobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. | datganiadau i egluro sail yr amod a'r amgylchiadau yr oedd wedi codi oddi tanynt. | |
| Rwy'n archwilio rhai o'r datgeliadau yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol, fel cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion ac aelodau annibynnol, i lefel berthnasol is o lawer oherwydd eu sensitifrwydd.<br>Hefyd, yn ystod 2019-20 bu nifer o newidiadau i Gyfarwyddwyr Gweithredol y Bwrdd Iechyd ac, fel rhan o'r | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio datgeliadau perthnasol yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol i sefydlu a ydynt yn gywir ac wedi'u datgelu'n briodol.<br>Fel rhan o'r gwaith hwn bydd fy nhîm archwilio yn gwirio a yw'r Bwrdd Iechyd wedi adlewyrchu'n gywir yr holl newidiadau hysbys i swyddi uwch yn y datgeliadau; ac a gafodd y Bwrdd Iechyd yr awdurdodiad priodol ar gyfer y taliad setliad. | Profais yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol yn sylweddol fel y bwriadwyd. Roedd canlyniadau fy archwiliad yn foddhaol. |

| | | |
|---|---|---|
| newidiadau, bu taliad setliad i'r cyn Brif Weithredwr.<br>Mae risg o gamddatganiad sylweddol oherwydd nifer y newidiadau gweithredol yn ystod y flwyddyn a'r ffaith y gallai camddatganiadau cymharol fach fod yn berthnasol i'm harchwiliad.<br>Mae risg hefyd o afreoleidd-dra perthnasol pe na bai taliad setliad y cyn Brif Weithredwr yn cael ei gymeradwyo gan yr awdurdod priodol. | | |
| Ar 18 Rhagfyr 2019 cyhoeddodd y Prif Weinidog Gyfarwyddyd Gweinidogol ffurfiol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddi weithredu menter 'cynllun yn talu' mewn perthynas â threfniadau treth pensiwn GIG Cymru ar gyfer staff clinigol. | Rydym yn ystyried goblygiadau cyfrifyddu ac archwilio'r cyfarwyddwyd (y cyntaf yng Nghymru ers datganoli ym 1999) ar y cyd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol sydd ar hyn o bryd yn mynd i'r afael â'r un mater o ran GIG Lloegr. | Profais drefniadau cyfrifyddu a rheoleidd-dra'r Cyfarwyddyd hwn. Roedd canlyniadau fy archwiliad yn foddhaol, er, fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, rwyf wedi cynnwys naratif 'pwyslais mater' yn fy nhystysgrif archwilio. |
| Ar gyfer 2019-20 mae cynnydd o 6.3% (i 20.3%) yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwr, sy'n cynrychioli cost ychwanegol sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn deall y bydd Llywodraeth Cymru yn | Bydd fy nhîm archwilio yn profi'r costau ychwanegol hyn i gadarnhau a yw'r Bwrdd Iechyd wedi eu datgelu ac wedi rhoi cyfrif amdanynt yn gywir. | Profais y mater hwn yn sylweddol, gyda chasgliad archwilio boddhaol. |

| | | |
|---|---|---|
| ysgwyddo cost 2019-20 y cynnydd hwn. | | |
| Gall cyflwyno ‘Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 - Prydlesi’ yn 2020-21 beri risgiau gweithredu os nad yw’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da hyd yma gyda’i waith paratoi. | Bydd fy nhîm yn gwneud rhywfaint o waith cynnar i adolygu parodrwydd ar gyfer cyflwyno Prydlesi IFRS 16. | Yn ddiweddarach, gohiriwyd cyflwyno'r safon gyfrifyddu hon ar gyfer cyrff cyhoeddus hyd at 2021-22, ac felly gohiriais fy adolygiad. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.